



Oriel

Mission



Pecyn

Gweithgareddau



Hunanbortreadaeth

Sialens 1

Tôn

Mewn hunanbortreadaeth, mae tôn yn bwysig.

Enw'r dechneg yma yw *Sfumato* a byddai'n cael ei defnyddio gan Leonardo Da Vinci. Mae *fumo* yn golygu mwg yn yr Eidaleg. Dylai'ch tonau mwyaf golau a mwyaf tywyll gymysgu 'fel mwg'

Bydd angen


- Rhywfaint o bapur
- Pensil, sialc neu siarcol.

Beth i'w wneud

Gan ddefnyddio pensil lliwiwch y sgwariau, gan ddechrau gyda'r arlliw mwyaf golau a mwyaf tywyll ac wedyn llenwch y bylchau.

Ysgafnaf

Tywyllaf



Sialens 2

Llinell Barhaol


Enw'r ymarfer nesaf yw arlunio llinell barhaol.

Bydd angen

- Pencil, pencil lliw neu gorlan
- Rhywfaint o bapur
- Drych

Beth i'w wneud

Craffwch ar eich wyneb yn y drych a heb dynnu'ch pencil oddi ar y papur, tynnwch lun o beth rydych chi'n ei weld. Peidiwch â phoeni os bydd eich llun yn edrych yn rhyfedd! Y peth pwysicaf yw ei fod mewn un llinell "barhaol"



Sialens 3

Golau & Chysgod

Nawr rydyn ni'n mynd i ganolbwyntio ar olau a chysgod.

Os nad oes gynnoch chi siarcol, gall paent du, dyfrlliwiau, inc neu hyd yn oed pensil wneud y tro'n iawn!

Bydd angen

- Siarcol wedi'i falu
- Rhywfaint o bapur
- Drych

Beth i'w wneud

Craffwch ar eich wyneb yn y drych.

Gyda siarcol wedi'i falurio, gan ddefnyddio'ch bys, arluniwch gysgodion eich wyneb fel rydych chi'n eu gweld nhw. Dim amlinelliadau, dim ond cysgodion!



Sialens 4

Cyfraneddau


IPan ddown ni at gyfraneddau'r wyneb, gall y templed sylfaenol yma'ch helpu.
Tip bach: Cofiwch arlunio'n ysgafn fel y gallwch gael gwared ag unrhyw linellau â rwber.

Bydd angen

- Pencil
- Rhywfaint o bapur

Beth i'w wneud

- Yn gyntaf arluniwch hirgrwn
- Rhannwch e yn bedair rhan
- Gwnewch y llygaid
- Rhannwch y rhan isaf yn ddwy
- Gwnewch y trwyn
- Wedyn, rhannwch y chwarter isaf yn ddwy (mae hyn yn gwneud y geg)
- Mae'r clustiau rhwng llinellau'r llygaid a'r trwyn



Ychwanegwch y manylion terfynol!

Sialens 5

Hunanbortread


Bydd angen

- Pensiliau, sialc, paent
- Dalennau o bapur

Beth i'w wneud

Treuliwch ychydig amser yn arlunio hunanbortread (naill ai drwy edrych yn y drych, neu o ddelwedd) gan ystyried tôn, cysgodion, llinell a chyfraneddau.

Tip bach: Os wyt ti'n paentio â dyfrlliwiau, mae'n bwysig gorbwysleisio'r lliwiau. Ffordd dda o wneud hyn yw drwy wneud llygaid bach.



Dangoswch eich llun i ni!

Bydden ni'n dwlu gweld eich creadigaethau! Anfonwch nhw at megan@missiongallery.co.uk neu tagiwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol
Facebook @mission.gallery
Instagram @missiongalleryswansea